
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@llwybrarfordircymru
llwybrarfordircymru.gov.uk




# Taith gerdded gylchol Maenorbŷr, Sir Benfro

## Arfordir hardd yn cynnwys castell o'r ddeuddegfed ganrif, siambr gladdu Mesolithig ac eglwys â chysylltiadau Celtaidd dwfn.

*"Mae'n wahanol i'r teithiau cerdded eraill ar hyd arfordir y de, gyda chlogwyni tywodfaen coch dramatig (mewn cyferbyniad â chalchfaen Ystagbwll a Bosherston) a phentref tlws, hanesyddol Maenorbŷr."*
LIBBY TAYLOR, UWCH GEIDWAD Y PARC CENEDLAETHOL (PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR SIR BENFRO)

### Dechrau a gorffen:
Maes parcio traeth Maenorbŷr.

### Pellter:
Taith gerdded gylchol 3 milltir neu 5 km.


© Christian Guthier

Yr olygfa o Gastell Maenorbŷr dros Eglwys Sant Iago



Maenorbŷr

## Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded gylchol hon yn cychwyn yng nghysgod castell godidog Maenorbŷr a godwyd yn y ddeuddegfed ganrif. Eich cam cyntaf yw ymweld ag eglwys Sant Iago, trwy fynd allan o gornel chwith isaf y maes parcio a chymryd troad i'r chwith dros bont garreg fach ac i'r chwith eto ar hyd lôn goediog.

O'r eglwys gallwch naill ai fynd yn ôl i'r traeth neu barhau trwy'r fynwent i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru yn Nghoetan y Brenin, siambr gladdu Fesolithig â maen capan enfawr.

Wrth i chi deithio ar hyd yr arfordir, byddwch chi'n cerdded trwy rannau o dirwedd fwyaf gwyllt a mwyaf anghysbell Sir Benfro, gyda golygfeydd godidog o'r môr o Ystagbwll y tu ôl i chi ac Ynys Bŷr o'ch blaen.

Os oes gennych amser mae'n werth dargyfeirio i lawr llwybr serth i draeth Maenorbŷr i gael golwg well ar y clogwyni tywodfaen coch llawn ffosiliau (neu gallwch fynd i'r gogledd i mewn i'r tir ar yr hawl tramwy cyhoeddus os ydych chi am gael taith fyrrach).

O draeth Maenorbŷr, ewch ymlaen ar hyd y llwybr nes ei fod yn ymuno â'r ffordd. Yma trowch i'r chwith am bellter byr ar hyd y ffordd cyn troi i'r chwith eto cyn troi am y llwybr troed ychydig cyn y man chwarae i blant a'i ddilyn yn ôl i Faenorbŷr.

## Man Treftadaeth Gysegredig:

Mae gallu'r Cristnogion Celtaidd cynnar i ddewis y llefydd mwyaf trawiadol ac ysbrydoledig ar gyfer eu heglwysi yn amlwg o weld lleoliad eglwys Sant Iago sy'n edrych dros fôr a thraeth Maenorbŷr.

Fe'i sefydlwyd fel mynachlog yn y chweched ganrif gan Sant Pŷr, abad cyntaf Ynys Bŷr a dyn a adawodd olion parhaol ar y rhan hon o Sir Benfro - ystyr Maenorbŷr yn yr Hen Gymraeg yw 'yn perthyn i Bŷr'.

Cafodd yr eglwys gerrig gyda thŵr gorllewinol amlwg sy'n sefyll yma heddiw ei hadeiladu yn y ddeuddegfed ganrif, ar yr un adeg y codwyd Castell Maenorbŷr gerllaw gan y teulu de Barri. Mae'n nodedig am ei chorff hir, nodwedd Eingl-Ffrengig nodedig sy'n adlewyrchu dylanwad y Normaniaid ar Sir Benfro ar ôl eu goresgyniad ym 1093.

Y tu mewn fe welwch do canoloesol y cyntedd wedi'i baentio, bedyddfaen Normanaidd bylchog a delw marchog (un o deulu de Barri o Gastell Maenorbŷr) sy'n dyddio i 1325. Mae yna nodweddion mwy modern hefyd, gan gynnwys ffenestri gwydr lliw a grëwyd gan Mrs P. Hughes o Faenorbŷr-newydd. Yn portreadu'r dirwedd a'r môr, maent yn gysylltiad clir a lliwgar â gwreiddiau Celtaidd yr eglwys.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Fe welwch lefydd parcio, toiledau cyhoeddus, siopau, caffis a thafarn ym Maenorbŷr.

Gallwch hefyd deithio ar y gwasanaeth bws 349 neu ddal y trên i orsaf Maenorbŷr, tua 1.5 milltir neu 2.4 km o ddechrau'r daith.

Datblygwyd y daith gerdded hon mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**. Ewch i'w gwefan **www.explorechurches.org/cymru** i ddarganfod mwy gan gynnwys teithiau a phrofiadau y gellir eu harchebu.